"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Rhagfyr, 2024**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.
Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan James Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

65. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

66. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

67. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 11eg Tachwedd, 2024**
**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Tachwedd, 2024.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).
**Materion yn codi**
(a) **Eitem 55 Cadarnhau Cofnodion – Cae Capel, Botwnnog – Cais Cynllunio C24/0205/32/LL**
**Adroddwyd** fod Meddygfa Rhydbach yn anhapus gyda rhan o ddatganiad y Cyngor ac ar arweiniad y Cadeirydd bydd y nodyn isod yn ffurfio rhan o'r pigion i Llanw Llŷn:
"Noder yn dilyn sylw gan y Feddygfa, fod y Cyngor bellach yn tynnu eu sylwad y byddai'r datblygiad yma yn rhoi mwy o bwysau ar "Feddygfa Rhydbach sydd bellach i'w llawn gapasiti ...." Hyn yn cael ei dynnu o bob datganiad/gwrthwynebiad o hyn ymlaen.
**Adroddwyd** ymhellach fod cefnogaeth i lythyr y Cyngor at ADRA yn gwrthwynebu'r datblgiad gan Gyngor Cymuned Llanllechid.
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.
(b) **Eitem 55 – Goryrru ar Allt Mellteyrn**
**Nodwyd** fod Heddwas wedi bod ym mhentref Sarn Mellteyrn ar 15fed Tachwedd, 2024, gyda'r gwn mesur cyflymdra er ceisio atal y goryrru sydd i lawr yr allt. Nodwyd hefyd fod Swyddog o Gyngor Gwynedd mewn cysylltiad a 'Go Safe' gan mai hwy sydd yn penderfynu a yw safle yn addas ar gyfer y fan 'Arrive Alive.'
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.
(c) **Eitem 57 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**
**Adroddodd** Y Cynghorydd Glyn Roberts nad oedd wedi cael amser i ymweld a mynedfa i Fynwent Llandegwnning ond fod y cyfryw ar y gweill.
(ch) **Eitem 58 – Dogfen Cefnogi Comisiwn Cymunedau Cymreig**
**Nodwyd** fod e-bost yn cydnabod sylwadau'r Cyngor wedi ei dderbyn oddi wrth Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Gwynedd eu bod fel ninnau yn "awyddus i weld y Gymraeg yn cadw ei thir ac yn ffynnu yn ein cymunedau. Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn edrych ymlaen pa argymhellion fydd Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadu.

Unwaith y bydd ymateb y llywodraeth ar gael ac y byddwn yn gwybod pa argymhellion y bydd disgwyl i'r Cyngor eu gweithredu, byddwn yn eu trafod ymhellach, gan gynnwys dynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yng Ngwynedd."
Yr un modd derbyniwyd llythyr o gydnabyddiaeth gan Mark Drakeford, Aelod Seneddol a Wendi Patience, Un Llais Cymru.
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

(d) **Coeden Nadolig/addurniadau i'r potiau blodau**
**Nodwyd** mae y tri lleoliad, Festri Capel Rhydbach, Botwnnog; Canolfan Bryncroes a Neuadd Goffa Sarn wedi derbyn cynnig y Cyngor am gyfraniad – gwelwyd coed a goleuadau hardd arnynt yn ystod y cyfnod. Nodwyd fod y bwriad o roddi goleuadau ym Mhenygroeslon wedi ei dynnu yn ôl.
**Penderfynwyd** awdurdodi'r Clarc i dalu y tri Sefydliad pan dderbynir yr anfonebau.

**(dd) Eitem 64 – Cyfrwng rhydweithio a chydweithio rhwng Mentrau Cymunedol**
**Adroddwyd** fod cynrychiolaeth o'r Cyngor wedi mynychu cyfarfod wedi ei drefnu gan Cymuedoli Cyf. yn Neuadd Sarn ar 20fed Tachwedd, 2024. Corff yw Cymunedoli Cyf. sydd yn cynrychioli mentrau cymdeithasol dros Wynedd ac yn awyddus i gynnal cyfarfod o Gynghorau Cymuned a Thref Pen Llŷn i ddod at ei gilydd i drafod pethau sy'n gyffredin. Bu "trafodaeth yn bennaf o gwmpas iaith, tai a thwrisitaeth a sut y byddai partneriaeth o gynghorau Cymuned fel Pum Plwy Penllyn a Phartneriaeth Ogwen yn gallu bod yn fuddiol i'r ardal." Cynigiwyd fod cyfarfod arall i'w gynnal yn y flwyddyn newydd.
**Penderfynwyd** penodi y Cynghorwyr Carys E. Williams a Siôn Williams i gynyrchioli'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

## 68. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd a phenderfynwyd** cefnogi'r ceisiadau a ganlyn:
*Cais C24/0924/32/LL* – cais ôl weithredol i ddymchwel adeilad gweithdy a chodi adeilad newydd yn ei le i'w ddefnyddio fel gweithdy peirianyddol ynghyd a chreu mannau parcio *a throi a gosod cynhwysydd storio – Gweithdy, Rhent, Bryncroes;*
*Cais C24/1063/32/LL* – adeiladu storfa slyri tanddaearol newydd – Trefollwyn Mawr, Botwnnog
*Cais C24/1064/32/LL* – adeiladu storfa slyri newydd ac adeiladu to ar ran o iard y fferm – Parc Bodbadrig, Sarn Mellteyrn.

## 69. CYNLLUNIO A CHYMUNEDAU CYMRAEG

**Derbyniwyd** e-bost oedd wedi ei dderbyn gan Sian Parri, Cydlynydd Prosiect Perthyn, fel a ganlyn (anfonwyd copi i'r Cyngor ganddi gan nad oeddem wedi ei derbyn):
"Ar 7fed Tachwedd, 2024, craffodd Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd 'Gynllunio a Chymunedau Cymraeg'. Craffwyd y mater hwn oherwydd fod angen sicrwydd bod y drefn gynllunio yn ystyried o ddifrif effaith datblygiadau (mawr a mân) ar gymunedau Cymraeg bregus. Penderfynodd y pwyllgor i dderbyn yr adroddiad yn ddarostyngedig ar sawl argymhelliad gan gynnwys atgoffa Cynghorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiadau cynllunio lleol ei gael ar yr ardal."
Yn yr un modd derbyniwyd e-bost gan Wendi Patience, Un Llais Cymru yn cyfeirio at yr un pwnc.
**Penderfynwyd** gofyn am fwy o wybodaeth.

70. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Adroddwyd** y gwelwyd difrod yn yr ardal yn dilyn Storm Darragh a **phenderfynwyd** anfon gair o ddiolch i Weithwyr Cyngor Gwynedd am eu gwaith diflino yn ceisio cael trefn a sicrhau fod y ffyrdd yn cael eu hagor mor fuan a phosibl.

Yn dilyn y difrodi **pendefynwyd** ymhellach, anfon gair at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt wneud arolwg o'r coed sydd yn ymylu â'r ffordd fawr er sicrhau eu diogelwch yn y dyfodol.

Yn olaf **penderfynwyd** gofyn i'r Adran Priffyrdd am gael glanhau'r ffyrdd (dail yn bennaf) yn Nanhoron, allt Sarn Mellteyrn a'r allt i lawr o Disgwylfa Sarn.

71. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:
HMRC - £105 (Siec 200842)
Y Clarc - £420 (Siec 200843)

Yn y cyswllt hwn adroddodd y Clarc iddi dderbyn llythyr gan y Parchedig Kevin Ellis yn gofyn am i siec a wnaed allan i Mynwent Eglwys Botwnnog (siec 200836) tuag at gynnal a chadw Mywent Botwnnog, gael ei gwneud i 'Bro Madryn Ministry Area' gan fod Botwnnog yn rhan o blwyf Bro Madryn.

**Pendefynwyd** awdurdodi cyflwyno siec o'r newydd yn enw 'Bro Madryn Ministry Area' (siec 200846).

72. **DWEUD EICH DWEUD AR GYLLID PLISMONA YNG NGOGLEDD CYMRU**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Matthew Evans, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Heddlu Gogledd Cymru – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

73. **GWASANAETH GOFAL BRYS NEWYDD WEDI'I GYNLLUNIO AR GYFER RHANNAU GWLEDIG AC ARFORDIROL ANGHYBELL O GANOLFABRTH A GOGLEDD CYMRU**

**Cyflwynwyd** dogfen gan Dîm CBCGC – copi wedi ei anfon allan i bob aelod gyda'r rhaglen.

**Penderfynwyd** nodi derbyn y ddogfen.

74. **Y SEFYLLFA ARIANNOL**

**Adroddodd** y Clarc nad oedd unrhyw wariant na derbyniadau wedi cymryd lle yn ystod mis Tachwedd.

**Adroddodd** ymhellach fod Adroddiad Archwilio Cymru i law ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu Mawrth, 2023 a Mawrth, 2024.

Er mai barn ar sail amod dderbyniwyd am y ddwy flynedd, "nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i roi achos i bryderu."

Cylchredwyd ymlaen llaw gopi o'r ddau adroddiad i aelodau'r Cyngor a **phenderfynwyd** eu derbyn.

Bydd rhybuddion yn cael eu hysbysebu ar y wefan a'r hysbysfyrddau yn rhoddi hawl i drethdalwyr ardal y Cyngor wneud copi o'r cofnod blynyddol.

75. **GWAITH BARBIO 2025/26**

**Penderfynwyd** gwahodd tendrau am farbio tiroedd y Cyngor drwy hysbyseb yn y Llanw ac hefyd yr hysbysfyrddau.